# Uned 34: Cynhyrchu Cnydau Amaethyddol y Gellir eu Dyrnu

**Côd yr Uned:** **R/503/4916**

**FfCC Lefel 3:** **BTEC Cenedlaethol**

**Gwerth o ran credydau:** **10**

**Oriau dysgu dan arweiniad:** **60**

## Nod a diben

Nod yr uned hon yw cyflwyno i ddysgwyr y sgiliau a’r wybodaeth y mae eu hangen ar gyfer cynhyrchu cnydau amaethyddol y gellir eu dyrnu, a sut gellir eu defnyddio yn ymarferol. Mae wedi'i dylunio ar gyfer dysgwyr mewn canolfannau sydd am symud ymlaen i'r sector neu i addysg bellach/uwch.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae'r uned hon yn trafod cnydau a gynaeafir fel arfer gan ddefnyddio dyrnwr medi. Mae cynhyrchu cnydau y gellir eu dyrnu yn galw am gyflawni cnydio uchel a rheoli costau'n ofalus er mwyn gwneud elw derbyniol o fewn gofynion cyfreithiol. Mae penderfyniadau ynghylch y math o bridd, lleoliad, hwsmona cnydau, marchnata a gwerthu yn dylanwadu ar ddichonoldeb mentrau cnydau ac felly, mae angen eu hystyried yn ofalus. Ymhlith y themâu pwysig a drafodir mae defnydd cost effeithiol o fewnbynnau, cynhyrchu ar gyfer y farchnad a chyfrifoldeb amgylcheddol. Mae hefyd yn cynnwys astudio twf ystod o gnydau y gellir eu dyrnu ar draws y wlad a gellir canolbwyntio ar gyd-destun lleol.

## Deilliannau dysgu

**Wedi cwblhau'r uned hon dylai'r dysgwr:**

1 Wybod sut i sefydlu cnydau y gellir eu dyrnu

2 Gallu cynllunio rheoli cnydau y gellir eu dyrnu

3 Deall sut i gynaeafu a storio cnydau y gellir eu dyrnu

4 Deall costau cynhyrchu a marchnadoedd cnydau y gellir eu dyrnu.

# Cynnwys yr uned

## 1 Gwybod sut i sefydlu cnydau y gellir eu dyrnu

*Dewis safle:* ffactorau (lleoliad, math o bridd, topograffi, maint cae); hinsawdd; y tywydd; ffactorau sy’n effeithio ar leoliad wrth gylchdroi

*Grwpiau cnydau:* grawn ee haidd, gwenith, ceirch; hadau olew ee rêp hadau olew, had llin; protin/corbys ee ffa cae, pys; cnydau amgen (llai) y gellir eu dyrnu ee miscanthus, rhyg, gwenith caled, rhygwenith, blodau'r haul, tafod yr ych, melyn yr hwyr, bysedd y blaidd, soia, ffa llydain; gofynion gwanwyneiddio

*Rheoli pridd:* draeniad; defnyddio a chadw mater organig; gofynion gwely hadau ar gyfer cnydau a heuir yn yr hydref a'r gwanwyn; paratoi gwely hadau ee amaethu cynradd ac eilaidd; cadw lleithder y pridd; atal a chywiro cywasgiad pridd; cletiroedd pridd; capio pridd ac erydiad pridd

*Dulliau sefydlu:* technegau ee drilio; ansawdd hadau; grym hadau; triniaethau hadau; cyfraddau hadau a ffactorau sy'n effeithio arnynt (mathau o gnydau ac amrywiaeth, amodau gwelyau hadau, poblogaethau targed y planhigion, dyddiad hau); dyfnder a bylchiad hau, poblogaeth planhigion; cyfrifo cyfradd hadau ee defnyddio pwysau mil-grawn/had (TGW, TSW); defnyddio hadau wedi'u hardystio, hadau cartref a gafodd eu cadw

*Dewis o gyltifar:* addasrwydd i amodau tyfu; gofynion y farchnad ee haidd (bragu, distyllu, porthi), grwpiau manyleb gwenith un i bedwar; dehongli rhestrau argymelledig ee cnydiad posib, ansawdd cnwd, maint hadau, gallu i wrthsefyll clefydau, dyddiadau cynaeafu; ystyried cnydau a addaswyd yn enetig (GM) lle y bônt ar gael.

## 2 Gallu cynllunio rheoli cnydau y gellir eu dyrnu

*Twf a datblygiad cnydau y gellir eu dyrnu:* adnabod camau tyfu ee graddfa ddegol; amseriad mewnbynnau ee cynhyrchion amddiffyn planhigion, maetholion cnydau, rheolyddion twf planhigion; cydrannau cnydiad, cofnodi poblogaethau planhigion ($m^{-1}$) adeg sefydlu, wrth iddynt ddod i’r amlwg ac adeg tileru, y nifer sy’n marw yn y gaeaf, grawn/tywysen $m^{-1}$, pwysau 1000 grawn

*Maeth cnydau y gellir eu dyrnu:* egwyddorion ee mynegeion pridd, dadansoddi pridd a meinweoedd; y prif faetholion ee N, P, K, S, a chalch; symptomau diffygion; mapio maetholion; gwaredu maetholion; argymhellion gwrtaith; amseru taenu ee cymwysiadau wedi’u hollti, cyfraddau amrywiol; cyfyngiadau cyfreithiol ar amseriad a chyfraddau taenu.

*Maetholion Llai a Hybrin:* amrediad ee boron, calsiwm, copr, magnesiwm a manganîs; diffiniad; argaeledd; adnabod a datrys symptomau diffygion

*Amddiffyn cnydau:* adnabod chwyn, plâu a chlefydau; achosion; trothwyon economaidd; dulliau rheoli ee rheolaeth integredig ar chwyn, plâu a chlefydau; rheolaeth gemegol (chwynleiddiaid, pryfleiddiaid, ffwngleiddiaid); rheoli diwylliannol (glanhau sofl, cylchdroi, gwrthsafiad amrywiaethau); mathau a rôl rheolyddion tyfu planhigion

*Deddfwriaeth a rheoliadau:* Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH); asesiadau risg amgylcheddol; Parthau Perygl Nitradau (NVZ), Llawlyfr Gwrtaith RB209, Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985; tystysgrifau gallu a chymwysterau proffesiynol ee BASIS a FACTS

## 3 Deall sut i gynaeafu a storio cnydau y gellir eu dyrnu

*Cynaeafu cnydau:* arwyddion aeddfedrwydd; gofynion y farchnad; triniaeth cyn-cynaeafu; dulliau cynaeafu; adnabod ffynonellau colledion; mesur ac atal colledion a difrod; cludo cnydau; deddfwriaeth traffig ffyrdd briodol ee pwysau cyfunol gros, gofynion hebrwng

*Storio cnydau:* gofynion storio, cyfrifo capasiti; storio cydweithfa/canolog neu ar y fferm; hylendid storfeydd, gan gynnwys pwysigrwydd dyluniad storfa a mygdarthu; cyflyru cnwd, gan gynnwys tymheredd, lleithder a chemegol yn unol â defnydd terfynol y cnwd ee gofynion yswiriant, hylendid bwyd; rheoli plâu storfa ac adnabod difrod a achoswyd; monitro cnydau mewn storfeydd; risgiau gwenwyn ffwng; iechyd a diogelwch wrth storio; cyfarpar amddiffyn personol (PPE)

## 4 Deall costau cynhyrchu a marchnadoedd cnydau y gellir eu dyrnu

*Paratoi cnydau at y diben terfynol:* allfeydd cnydau; bodloni gofynion y farchnad ee biodanwydd, olewau llysiau, olewau diwydiannol, hadau, crimpio, bragu, llifanu, porthiant/blawd da byw; gwerth ychwanegol; dangosyddion ansawdd ee rhif gostyngol Hagberg, cynnwys olew; gwerth gwaddodion cnydau ee gwellt

*Costiadau:* allbwn gros; costau amrywiol; maint elw gros a net; dadansoddi costiadau ee defnydd effeithiol o fewnbynnau a chynnal/gwella enillion; cynlluniau sicrhau/ yswirio cnydau; strategaethau marchnata ee amseru gwerthiant, marchnadoedd y dyfodol, opsiynau, defnydd o farchnata ar y cyd, prisiau sbot, meincnodi

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno gan y dysgwyr i'w hasesu arddangos eu bod yn gallu bodloni'r holl ddeilliannau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

| **Meini prawf asesu a graddio** | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll1 nodi cnydau ac amrywiaethau priodol | T1 adrodd am ddulliau sefydledig a phroblemau posib ar gyfer cnwd dethol y gellir ei ddyrnu wrth gyflawni cnydiadau optimwm | Rh1 gwerthuso'r rhaglen gynhyrchu ar gyfer cnwd penodol<br>• yr effaith ar yr amgylchedd<br>• rheoli plâu<br>• marchnadwyedd |
| Ll2 dethol offer priodol ar gyfer paratoi gwelyau hadau | | |
| Ll3 disgrifio dulliau sefydlu ar gyfer cnydau penodol gan gynnwys<br>• dewis safle<br>• rheoli pridd<br>• dull hau [YA, MC, DM] | | |
| Ll4 cynllunio rhaglen wrteithio ar gyfer cnydau penodol | | |
| Ll5 disgrifio gweithdrefnau rheoli chwyn, plâu a chlefydau sy'n briodol wrth gynhyrchu cnwd penodol [GT, HR, CE] | | |
| Ll6 disgrifio canllawiau deddfwriaethol ac amgylcheddol cywir sy'n berthnasol i gnydau penodol | | |
| Ll7 egluro gweithrediadau cynaeafu ar gyfer cnydau penodol | T2 gwerthuso cost cynhyrchu cnwd penodol. | |
| Ll8 trafod amodau storio addas ar gyfer cnwd penodol | | |
| Ll9 gwerthuso dulliau rheoli plâu a chlefydau storio | | |

 © Pearson Education Limited 2019

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll10 gwerthuso gofynion y farchnad ar gyfer cnydau penodol y gellir eu dyrnu | | |
| Ll11 dadansoddi cnydiad cnydau | | |
| Ll12 cymharu prisiau'r farchnad a chostau cynhyrchu ar gyfer gwahanol gnydau | | |

**SPDM:** Mae'r crynodeb hwn, lle y bo'n berthnasol, yn cyfeirio yn y meini prawf llwyddo, yn y cromfachau sgwâr, at elfennau o'r sgiliau personol, dysgu a meddwl. Mae'n nodi'r cyfleoedd i ddysgwyr arddangos eu bod wedi defnyddio elfennau'r sgiliau y cyfeirir atynt yn effeithiol.

| **Allwedd** | YA - ymholwyr annibynnol<br>MC - meddylwyr creadigol<br>DM - dysgwyr myfyriol<br>GT - gweithwyr tîm<br>HR - hunan-reolwyr<br>CE - cyfranogwyr effeithiol |
|---|---|

# Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

## Cyflwyno

Wrth gyflwyno'r uned hon bydd angen asesiadau theori ac ymarferol ac ymweliadau â lleoliadau addas. Gallai gysylltu â lleoliadau profiad gwaith.

Mae'r uned yn canolbwyntio ar ddysgwyr yn bod yn rhan o holl weithrediadau cynhyrchu cnydau fferm. Mae angen i'r tiwtoriaid sicrhau bod gan y dysgwyr fynediad at ddetholiad mor eang â phosibl o gyfleoedd dysgu. Gallai hyn gynnwys darlithoedd, teithiau cerdded rheolaidd o amgylch cnydau, (yn ystod amser cyflwyno ac amser y dysgwr ei hun), gwaith ymarferol fferm, profiad gwaith, sgyrsiau, ymweliadau ac ymwneud ag agronomegydd.

Er mwyn i'r uned fod yn effeithiol, bydd angen i'r tiwtoriaid ystyried amseriad yr asesiadau oherwydd pwysigrwydd tymoroldeb. At hynny, mae angen i'r tiwtor sicrhau bod yr holl gnydau perthnasol yn cael eu cynnwys hy cnydau y gellir eu dyrnu, glaswellt, bresych, codlysiau a gwraidd-gnydau. Dylid hefyd ystyried cnydau 'amgen' hefyd, megis miscanthus, had llin ac eraill.

Bydd angen i ddeilliant dysgu 1 gael ei gyflwyno ar ddechrau'r rhaglen, yn ddelfrydol yn yr hydref. Gall fod y dysgwyr wedi gweithio gydag amaethu'r hydref a pharatoi gwelyau hadau ac yn rhan o'r gwaith hwnnw. Fel arall, byddai cnwd a hedir yn y gwanwyn hefyd yn addas ar gyfer yr un flwyddyn o'r rhaglen.

Bydd angen cyflwyno deilliant dysgu 2 i gyd-fynd â thwf cnydau, sy'n debygol o fod yn yr hydref a'r gwanwyn.

Bydd angen i ddeilliannau dysgu 3 a 4 ddefnyddio hanes cnydau blaenorol, lle nad yw'r dysgwyr yn debygol o fod yn y ganolfan yn ystod yr haf i fonitro a chasglu data cynaeafu, storio a marchnata'r cnwd cyfredol.

Lluniwyd y meini prawf graddio teilyngdod gyda'r nod o efelychu arfer y diwydiant wrth arsylwi cnydau a cherdded rheolaidd, er mwyn asesu sefyllfa cnwd ar bob cam o'i gynhyrchu.

## Cynllun dysgu amlinellol

Mae'r cynllun dysgu amlinellol wedi cael ei gynnwys yn yr uned hon fel arweiniad a gellir ei ddefnyddio ar y cyd â'r rhaglen o aseiniadau a awgrymir.

Mae'r cynllun dysgu amlinellol yn rhoi **syniad o faint o waith dysgu fyddai'n angenrheidiol i ddysgwr arferol** gyflawni'r deilliannau dysgu. Mae'n **ddangosol ac yn un ffordd o gyflawni'r gwerth o ran credydau.**

Dylai'r amser dysgu drafod yr holl ddysgu (gan gynnwys asesu) sy'n berthnasol i'r deilliannau dysgu, ni waeth ble, pryd na sut y digwyddodd y dysgu.

| **Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir** |
|---|
| Cyflwyniad a throsolwg o'r uned. |
| **Aseiniad 1: Amaethu a Sefydlu Cnydau** (Ll1, Ll2, Ll3, T1). briffiad |
| Teithiau cerdded ymarferol o amgylch cnydau i arsylwi cyflwr caeau ar ôl cynaeafu a chyn drilio/plannu. |
| Sesiwn theori: cylchdroi cnydau, priddoedd a strwythur pridd perthnasol i ganllawiau cynaliadwy. |

 © Pearson Education Limited 2019

| Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir |
|---|
| Sesiwn ymarferol: mynd ati i amaethu, ymweld â digwyddiad amaethu, gofalu am beiriannau, eu defnyddio a'u cynnal a'u cadw, teithiau cerdded o amgylch cnydau ac arolygu cnydau wedi'u drilio/plannu. |
| **Aseiniad 2: Tyfu Cnydau Iach (rhan 1 gwrtaith)** (Ll4, Ll6), briffiad |
| Sesiwn theori: maetholion cnydau ac argymhellion cnydau, rhaglenni Llawlyfr Gwrtaith a PLANET, NVZ, gofynion trawsgydymffurfio |
| Sesiwn ymarferol: teithiau cerdded cnydau, arsylwi a monitro camau tyfu cnydau. |
| **Aseiniad 3: Tyfu Cnydau Iach (rhan 2 atal clefydau)** (Ll5, T2, Rh1), briffiad |
| Sesiwn theori: camau twf cnydau, mathau o chwistrellwyr a'u defnyddio, canllawiau amgylcheddol, amseru chwistrellu, rheolyddion twf. |
| Sesiwn ymarferol: teithiau cerdded rheolaidd o amgylch cnydau i arsylwi clefydau, difrod ac unrhyw ymateb i chwistrellu |
| **Aseiniad 4: Cynaeafu a Storio Cnydau** (Ll7, Ll8, Ll9), briffiad |
| Sesiwn theori: peiriannau cynaeafu a llif cnydau, amseru cynaeafu i gyd-fynd ag aeddfedrwydd cnydau, mathau o storio cnydau, amddiffyn cnydau sy'n cael eu storio. |
| Sesiwn ymarferol: ymweld â storfa/cydweithfa gnydau, paratoi storfa ar gyfer amrywiol gnydau. |
| **Aseiniad 5: Marchnata Cnydau a Phrisiau'r Farchnad** (Ll10, Ll11, Ll12), briffiad |
| Sesiwn theori: defnyddiau gwahanol o gnydau, safonau sicrhau ansawdd cnydau, gofynion y farchnad |
| Sesiwn ymarferol: ymweliad â menter berthnasol/siaradwr gwadd. |
| Sesiwn theori: prisiau a thueddiadau'r farchnad, cyfrifiadau maint elw gros a chostau uned cynhyrchu |
| Adolygu'r uned. |

## Asesu

Ar gyfer Ll1 ac Ll2, bydd angen i'r tiwtoriaid ddosbarthu'r asesiadau'n gynnar yn y rhaglen. Ar gyfer Ll1, mae angen i'r dysgwyr adnabod y prif gnydau y gellir eu dyrnu ynghyd ag unrhyw gnydau llai pwysig a dyfir yn lleol, ac adnabod y cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer gweithrediadau gwelyau hadau. I gwblhau Ll2, bydd angen i'r dysgwyr arsylwi amrediad o beiriannau amaethu a bod yn gyfarwydd ag egwyddorion rheoli pridd y gellid defnyddio'r peiriannau ar eu cyfer. Gallai'r tiwtoriaid annog y dysgwyr i ddefnyddio unrhyw brofiad gwaith blaenorol sydd ganddynt.

Ar gyfer Ll3, gallai'r dysgwyr ddefnyddio cynllun cylchdroi fferm, gwneud sylwadau arno a chreu cynllun ar gyfer y flwyddyn gnydio nesaf. Ar gyfer Ll4, Ll5 ac Ll6, dylid annog y dysgwyr i fonitro cnydau'n rheolaidd fel eu bod yn gallu cyflawni'r meini prawf hyn yn ystod y cyfnod dan sylw.

Ar gyfer Ll7, Ll8 ac Ll9 bydd angen i'r tiwtoriaid unwaith eto gynllunio amseriad yr asesiadau'n ofalus, yn enwedig os ydynt am i'r dysgwyr weld cynaeafu a storio. Y cnydau addas ar gyfer hyn yn ystod blwyddyn academaidd fyddai silwair neu wair. Ar gyfer Ll10, Ll11 ac Ll12, rhaid bod y dysgwyr yn ymwybodol o amrywiadau ym mhris cnydau. Byddai defnyddio adroddiadau wythnosol am dueddiadau'r farchnad o gyhoeddiadau ffermio'r wasg yn ddefnyddiol iawn ynghyd ag unrhyw ddata safonol a gyhoeddir. Mae'n debygol y bydd angen cymryd data ar gyfer Ll11 o gnydiad blaenorol fferm neu o wybodaeth safonol.

Ar gyfer T1 a T2, mae angen i'r dysgwyr fonitro cnydau'n rheolaidd. Gallai'r dystiolaeth fod ar ffurf adroddiadau maes, dyddiaduron neu flogiau.

Ar gyfer Rh1, rhaid bod y dysgwyr yn gallu gwerthuso argymhellion agronomegydd ar gyfer defnyddio cynnyrch amddiffyn planhigion, ac arsylwi a chofnodi cyflwr y cnwd cyn dewis cynnyrch. Bydd angen i'r dysgwyr ddangos eu bod yn gallu adnabod difrod i gnydau a chlefydau, yn gyfarwydd â Chanllaw Plaleiddiaid y Deyrnas Unedig ac yn deall y defnydd o leiniau clustogi.

### Rhaglen aseiniadau a awgrymir

Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos rhaglen o aseiniadau a awgrymir sy'n cwmpasu'r meini prawf llwyddo, teilyngdod a rhagoriaeth yn y grid graddio. Arweiniad yw hwn ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau Edexcel i gyd-fynd ag anghenion ac adnoddau lleol.

| Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu | Teitl yr aseiniad | Senario | Dull asesu |
|---|---|---|---|
| Ll1, Ll2, Ll3, T1 | Amaethu a Sefydlu Cnydau | Gofynnwyd i chi lunio rhestr o gnydau addas i'w tyfu ar fferm benodol a monitro'u twf yn ystod y flwyddyn. Defnyddiwch raglen gylchdroi flaenorol y fferm a chynnig trefniant cylchdroi ar gyfer y tymor nesaf. Dewiswch y peiriannau amaethu angenrheidiol i sefydlu'r cnydau a chyfiawnhau eich dewis. | Arsylwi ymarferol<br>Tystiolaeth ysgrifenedig / dyddiadur / blog. |

| Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu | Teitl yr aseiniad | Senario | Dull asesu |
|---|---|---|---|
| Ll4, Ll6 | Tyfu Cnydau Iach (rhan 1 gwrtaith) | Mae angen i chi gofnodi’r broses o fonitro cyflawni rhaglen gwrteithio cnydau. Nodi'r holl wrtaith organig ac anorganig a ddefnyddiwyd. | Arsylwi ymarferol<br>Tystiolaeth ysgrifenedig / dyddiadur / blog. |
| Ll5, T2, Rh1 | Tyfu Cnydau Iach (rhan 2 atal clefydau) | Cynhyrchu dyddiadur ar gyfer monitro rhaglen chwistrellu cnydau. Cyfiawnhau'r defnydd o chwistrelliadau yn unol ag anghenion cnydau a'r amgylchedd. | Arsylwi ymarferol<br>Tystiolaeth ysgrifenedig / dyddiadur / blog. |
| Ll7, Ll8, Ll9 | Cynaeafu a Storio Cnydau | Mae angen i chi ddatblygu cynllun ar gyfer cynaeafu a storio cnwd, a sut gellir monitro'r cnwd ar ôl ei storio. | Arsylwi ymarferol<br>Tystiolaeth ysgrifenedig / dyddiadur / blog |
| Ll10, Ll11, Ll12 | Marchnata Cnydau a Phrisiau'r Farchnad | Cynhyrchu maint elw gros ar gyfer cnwd, gan nodi prisiau'r gorffennol, y presennol a rhai tebygol i’r dyfodol yn seiliedig ar ffigurau cyfredol a gwybodaeth am y fferm. | Arsylwi ymarferol<br>Tystiolaeth ysgrifenedig / dyddiadur / blog |

## Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn ffurfio rhan o gyfres sector tir BTEC. Mae gan yr uned hon gysylltiadau penodol â:

| **Lefel 2** |
|---|
| Cyflwyniad i Sefydlu Cnydau |
| Cynorthwyo wrth Gynhyrchu Cnydau Amaethyddol |
| **Lefel 3** |
| Elfen AgC9.1 Paratoi a monitro safleoedd ar gyfer amaethu<br>Elfen AgC9.2 Amaethu safleoedd ar gyfer plannu cnydau<br>Elfen AgC10.1 Monitro a chynnal twf iach cnydau helaeth<br>Elfen AgC10.2 Lleihau'r risg i gnydau gan blâu, clefydau ac anhwylderau<br>Elfen AgC11.1 Paratoi offer plannu<br>Elfen AgC11.2 Plannu a sefydlu cnydau helaeth<br>Elfen AgC12.1 Cynnal a rheoli gweithrediadau cynaeafu<br>Elfen AgC12.2 Paratoi cnydau a gynaeafir |
| Deall Egwyddorion Gwyddor Planhigion |
| Deall Egwyddorion Gwyddor Pridd |

## Adnoddau hanfodol

Bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad i gaeau lle tyfir amrediad o gnydau, o bosib ar fferm y ganolfan ei hun a/neu ar ffermydd lleol. Bydd angen iddynt fod yn ymwybodol o bolisi'r fferm o ran yr amgylchedd, megis y defnydd o leiniau cadwraeth/clustogi, a lle mae fferm wedi ymuno â'r Cynllun Lefel Mynediad. Rhaid i'r dysgwyr hefyd allu cyflawni gweithrediadau maes penodol mewn ffordd ddiogel, gan ddefnyddio tractorau a pheiriannau perthnasol.

Dylid annog sgyrsiau ac ymweliadau â ffermydd lleol a mentrau cysylltiedig neu gydweithfeydd er mwyn profi cwmpas llawn yr uned. Dylai cofnodion corfforol ac ariannol fferm fod ar gael ar adegau perthnasol i'r dysgwyr yn ystod y rhaglen. Fel arall, gellid llunio cofnodion 'ffug' priodol o ffigurau meincnodi HGCA neu DARDNI.

## Ymgysylltu â chyflogwyr a chyd-destunau galwedigaethol

Mae'r uned yn canolbwyntio ar gyfranogiad dysgwyr ar bob cam o gynhyrchu cnydau. Gellid llunio cytundeb â budd o'r ddeutu lle defnyddir fferm leol fel astudiaeth achos, a gwahodd y ffermwr i wrando ar farn dysgwyr ynghylch rheoli cnydau'r fferm a gwneud sylwadau.

## Darllen dangosol i ddysgwyr

**Gwerslyfrau**

Bell B – Farm Machinery – *Pumed Argraffiad* (Old Pond Publishing, 2008) ISBN 978-1903366684

Culpin C – *Farm Machinery* (Anhysbys, 2008) ISBN 978-1443703017

Davies D, Finney B, Eagle D – *Soil* (Resource management) (Farming Press, 2002) ISBN 978-0852365595

Eash N, Green C – *Soil Science Simplified* (Wiley-Blackwell, 2008) ISBN 13: 978-0-8138- 1823-8

Finch H, Samuel A, Lane G – *Lockhart & Wiseman's Crop Husbandry including grassland* (Woodhead publishing, 2002) ISBN 1 85573 5490

Nix J – *Farm Management Pocketbook, 39fed Argraffiad* (The Andersons Centre, 2009) ISBN 0954120159

Soffe R – *The Agricultural Notebook, 20fed Argraffiad* (Blackwell Science, 2003) ISBN 0632058293

Wilson P, King M – *Arable Plants – a field guide* (Wildguides, 2003) ISBN 1 903657 02 4

**Cyfnodolion**

*Crops*

*Farmers Weekly*

*Cyhoeddiadau eraill*

DEFRA – *Fertiliser Recommendations for Agricultural and Horticultural Crops RB209, 8fed Argraffiad* (The Stationery Office Books, 2010)

UK Pesticide Guide (CABI, 2009) ISBN 978 1 845934 16 3

**Gwefannau**

| | |
|---|---|
| www.pesticides.gov.uk/ | Cyfarwyddeb Rheoliadau Cemegion |
| www.efma.org | Cymdeithas Gweithgynhyrchwyr Gwrtaith Ewrop |
| www.hgca.com | Awdurdod Grawn Cartref |
| www.newfarmcrops.co.uk | New Farm Crops |
| www.niab.com | Sefydliad Cenedlaethol Botaneg Amaethyddol |
| www.defra.gov.uk | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |

## Cyflwyno sgiliau personol, dysgu a meddwl (SPDM)

Mae'r tabl hwn yn nodi'r cyfleoedd SPDM a gafodd eu cynnwys ym meini prawf asesu'r uned hon:

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | monitro cnydau |
| **Meddylwyr creadigol** | monitro a chynllunio agweddau ar gynhyrchu cnydau |
| **Dysgwyr myfyriol** | monitro a chynllunio agweddau ar gynhyrchu cnydau |
| **Gweithwyr tîm** | cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol, profiad gwaith a chynllunio aseiniad fel tîm i'w cyflwyno i ffermwr |
| **Hunan-reolwyr** | cyflawni dyletswyddau fferm ac yn gyfrifol am eu prydlondeb eu hunain |
| **Cyfranogwyr effeithiol** | cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol, profiad gwaith a chynllunio aseiniad fel tîm i'w cyflwyno i ffermwr |

Er y nodir cyfleoedd SPDM yn yr uned hon fel rhan annatod o'r meini prawf asesu, ceir cyfleoedd eraill i ddatblygu amrediad o SPDM trwy fynd ati i ddysgu ac addysgu mewn amrywiol ffyrdd.

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **Dysgwyr myfyriol** | ymweld â ffermydd lleol a mentrau perthnasol |
| **Cyfranogwyr effeithiol** | gweithio gyda ffermydd lleol a mentrau perthnasol |